

Blaenraglen Waith

Ebrill 2018 - Mawrth 2019

Mae Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol yn nodi nifer o bwyntiau cyffredinol ar ddechrau ei adroddiad.

1. CYFFREDINOL – GWREIDDIO CYNWYSOLDEB YMHOB AGWEDD AR Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB

(i) “Dylai cynhwysiant gael ei wreiddio ymhob agwedd ar y gwasanaeth tân ac achub.”

Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau	Cytunwyd ar yr arferion gorau ledled GTAau Cymru i sicrhau dull cyson o adrodd. Mae pob un wedi cytuno i gynnwys anabledd ac ethnigrwydd wrth gyfrif, h.y. edrych ar fylchau anabledd/ethnigrwydd a differynnau cyflogau.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Diwrnod Iechyd a Llesiant: ar gyfer Gweithwyr sydd â Salwch Tymor Hir	Cafodd gweithwyr ar absenoldeb salwch tymor hir eu gwahodd i ddiwrnod Iechyd a Llesiant ar 3 Rhagfyr yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Nod y diwrnod oedd rhoi cyfle i weithwyr gymryd rhan mewn Gweithdai Tai Chi, Ymwybyddiaeth Ofalgar ac Ymlacio, Maeth a Ffitrwydd. Roedd y gweithdai'n ceisio targedu negeseuon iechyd allweddol ac roeddent wedi'u cynllunio i fod yn rhyngweithiol a llawn gwybodaeth.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Hybu/mabwysiadu'r ymgyrch 'He for She'.	Dyma ymgyrch fyd-eang i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau ac i annog dynion i ymrwmo i wneud cydsafiad gyda merched. Ymgyrch fewnol arfaethedig i hyrwyddo ymrwymiad tuag at ferched yn y GTA, ac ymgyrch allanol (yn ddigidol yn bennaf, ar y cyfryngau cymdeithasol – gyda chlipiau fideo) a'i lansio yn y Senedd ar 13 Mehefin 2019.	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol
Hybu cyfleoedd gyrfa i'r genhedlaeth nesaf o staff.	Mae hybu cyfleoedd gyrfa i'n cenhedlaeth nesaf yn allweddol i recriwtio a diogelu eich cymunedau yn y dyfodol. Ym mis Chwefror 2019, cafodd Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref a Diffoddwr Tân y System RDS o Ruthun eu cyfweld, a tynnwyd lluniau ohonynt ar gyfer astudiaethau achos i'w cynnwys yn BBC Bitesize, sef adnodd astudio ar-lein gan y BBC ar gyfer myfyrwyr ysgol ledled y DU.	Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol

<i>(ii) “Mae angen cael perchnogaeth ac arweinyddiaeth amlwg ar lefel uchel – i arwain drwy esiampl ac i sicrhau bod strategaethau a mentrau lleol yn cael eu gwireddu ar lawr gwlad, gan wneud cynwysoldeb yn norm. O fewn gwasanaeth, dylai hyn fod ar lefel prif swyddog. O fewn awdurdod tân, dylai aelod penodol o'r awdurdod ddal y portffolio.”</i>		
Adduned Cyflogwr (Wrecsam)	<p>Mae'r Gwasanaeth wedi llofnodi Adduned Cyflogwr gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.</p> <p>Mae'r adduned yn cefnogi'r weledigaeth y bydd cyflogwyr o bob sector yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r lefel uchaf o gyflogaeth a chyfleoedd hyfforddi i bobl ifanc ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.</p> <p>Yr uchelgais yw bod modd, drwy weithio mewn partneriaeth, chwyddo cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc a'n hoedolion, cefnogi twf busnesau a datblygu economi Wrecsam.</p>	Rheolwr Adnoddau Dynol
Datblygu uwch reolwyr	Drwy raglenni arweinyddiaeth sydd â chynwysoldeb wedi'i wreiddio ynddynt. Rhaglen 'Pioneer' Strategol/Llwyfan Arweinyddiaeth Weithredol a rhaglen 'Challenge' ar gyfer Rheolwyr Canol.	Rheolwr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth
<i>(iii) “Dylid cydnabod cyfranogiad undebau fel ffactor pwysig yn cyflawni gwelliant, yn enwedig o ran cymheiriaid yn ymwneud â'i gilydd.”</i>		
Cynyddu aelodaeth Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol	Erbyn hyn, mae cynrychiolydd o'r System RDS, cynrychiolydd sy'n Gyfaill Stonewall, cynrychiolydd benywaidd o Undeb yr FBU, a Phrentis Diffoddwraig Tân aelodau o'r grŵp.	Rheolwr Adnoddau Dynol
<i>(iv) “Dylai Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod y gweithle yn addas i'r pwrpas ar gyfer pob grŵp o weithwyr, gan gynnwys Cyfarpar Amddiffyn Personol cywir a chyfleusterau penodol ar gyfer y rhywiau mewn gorsaoedd tân ac ar safle tanau.”</i>		
Adolygu'r Polisi Ffitrwydd	<p>Cynhaliwyd adolygiad o'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol yr NFCC, ei fod yn cyfateb i'r arferion cyfredol a pholisïau'r Gwasanaeth, a'i fod hefyd yn ystyried dull Cymru gyfan o weithio.</p> <p>Cynigir bod yr asesiadau ffitrwydd cyfredol bob 6 mis yn newid yn rhai blynyddol. Mae'r NFCC yn cynghori profi unigolion bob blwyddyn, a chaniatáu i'r rhai sydd ddim yn cyrraedd y lefel angenrheidiol o ffitrwydd gael eu profi'n fwy rheolaidd ac i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd hyn yn caniatáu i'r tîm gael mwy o hyblygrwydd i gynnig ymyriadau.</p>	Rheolwr Adnoddau Dynol / Tîm Ffitrwydd

2. HYBU DIWYLLIANT CYNHWYSOL

(i) “Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod pob rheolwr yn cael hyfforddiant rheoli pobl, sy'n cynnwys sgiliau megis cael sgysiau anodd a dylai pob rheolwr gydnabod bod cyfrifoldeb arno/arni i hybu diwylliant cynhwysol.”

<p>'Rheoli Iechyd Meddwl yn y Gwasanaethau Brys'</p>	<p>Gweithdy a gyflwynwyd gan Olau Glas MIND i wella dealltwriaeth rheolwyr o iechyd meddwl a sut gallant gefnogi gweithwyr i atal a rheol os collir llesiant seicolegol. Darparwyd pedair sesiwn hyfforddi rhwng mis Medi a Mis Tachwedd i Brif Swyddogion, Rheolwyr Maes, Rheolwyr Grŵp, Rheolwyr Gorsaf a Rheolwr Swyddogaeth Gefnogol. Daeth 40 o bobl i gyd. Mae un sesiwn gweithdy arall ar gael, i'w threfnu ar gyfer mis Mawrth 2019.</p>	<p>Rheolwr Adnoddau Dynol</p>
<p>Pecyn Gweithio gyda Thosturi</p>	<p>Cafodd y pecyn ei greu gan y Samariaid. Nid yw'n arbennig ar gyfer y gwasanaethau brys, ond mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bobl mewn trallod neu argyfwng, ac awgrymiadau ar ddelio â materion a gwrando'n weithredol. Mae fersiwn Gymraeg o'r pecyn ar gael hefyd, ac mae yn y ffeil iechyd corfforaethol yn y ffolder gwybodaeth electronig.</p>	<p>Rheolwr Adnoddau Dynol</p>
<p>Hyfforddiant i Hyrwyddwyr Golau Glas Mind</p>	<p>Cynhaliwyd dau gwrs, a daeth 25 o bobl i gyd i'r cwrs cychwynnol i hyrwyddwyr, sef Speaking up Speaking Out. Aeth wyth hyrwyddwr ar yr ail gwrs Cefnogaeth Cymheiriaid (Hydref 2018), a threfnwyd cwrs arall i'r hyrwyddwyr eraill ar gyfer Mawrth 2019.</p>	<p>Rheolwr Adnoddau Dynol</p>
<p>Hyrwyddwyr Golau Glas (cyfathrebu)</p>	<p>Lluniwyd poster yn cynnwys manylion cyswllt, i'w ddsbarthu i holl leoliadau GTAGC. Dosbarthwyd llyfrynau gwybodaeth a chardiau waledi MIND i'r holl leoliadau, ar gyfer y gweithwyr. Gwaith hyrwyddo ac erthyglau gan yr Hyrwyddwyr i ddangos y ffordd at ragor o gymorth, os oes angen.</p>	<p>Rheolwr Adnoddau Dynol</p>

(ii) “Dylai uwch reolwyr arwain drwy esiampol gadarnhaol. Dylent herio ymddygiad bwlio ac aflonyddu ar bob lefel, a phan fo angen, dylent sicrhau bod arddulliau rheoli yn newid er mwyn hybu diwylliant gwahanol a gwell.”

(iii) “Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub hybu diwylliant lle mae her yn cael ei dderbyn a'i groesawu fel cyfraniad cadarnhaol. Dylai hyn fod i'r ddau gyfeiriad.”

Diweddarau Polisi a Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban	Adolygwyd a diweddarwyd y polisi er mwyn cynnwys sut gall gweithwyr fynegi pryderon y tu allan i'r Gwasanaeth os ydynt yn anfodlon gyda'r ymateb, e.e. i archwilydd allanol, rheoleiddiwr neu ombwdsmon. Bydd y Gwasanaeth yn darparu llinell ffôn uniongyrchol a chyfrinachol, heb swistfwrdd, wedi'i chysylltu â pheiriant ateb ac ar gael 24 awr y dydd. Hefyd, cyfeiriad e-bost pwrpasol a chyfrinachol er mwyn derbyn datgeliadau.	Rheolwr Adnoddau Dynol
<i>(iv) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod pob gweithiwr yn ymwybodol o'r polisiâu perthnasol ac yn eu deall. Pan fo digwyddiad yn cael ei adrodd, a phan ganfyddir ei fod yn gywir, mae'n bwysig cymryd camau, a bod hynny'n cael ei weld. Mae angen i bawb fod yn hyderus yn y broses."</i>		
Dylai ymwybyddiaeth o Bolisi Chwythu'r Chwiban fod yn elfen allweddol o raglen gynefino'r staff	Bydd darllen a deall Polisi Chwythu'r Chwiban yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gynefino'r Gweithwyr; mae'n bwysig oherwydd mae'n rhan allweddol o'r berthynas rhwng y gweithiwr a'r cyflogwr. Gweithwyr newydd sydd fwyaf tebygol o fynegi pryderon.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Hyfforddiant Chwythu'r Chwiban	Bydd hyfforddiant Chwythu'r Chwiban yn cael ei addasu ar gyfer modiwl e-ddysgu Learnpro (LMS) er mwyn sicrhau bod rheolwyr newydd yn cael hyfforddiant priodol ar ddilyn Polisi Chwythu'r Chwiban yn ymarferol, a chydymffurfio â'r Polisi.	Rheolwr Adnoddau Dynol / Rheolwr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth
<i>(v) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub fonitro'r defnydd o weithdrefnau disgyblu a chwynion cyflogaeth er mwyn canfod a chywiro unrhyw dueddiadau problemus. Dylai hyn hefyd gynnwys elfen o fonitro ar lefel anffurfiol er mwyn codi problemau'n gynnar."</i>		
Adolygu a diweddarau'r Llawlyfr Disgyblu	Yn mynd ymlaen	Rheolwr Adnoddau Dynol/Uwch Reolwr Safonau Proffesiynol a Gwasanaeth
Gwybodaeth am ddisgyblu a chwynion cyflogaeth i'r ATA	Mae ystadegau disgyblu a chwynion cyflogaeth yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân bob blwyddyn, a hynny yn yr adran Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol o Adroddiad Asesiad o Berfformiad y Gwasanaeth.	Rheolwr Adnoddau Dynol/Ymgynghorydd Cydraddoldeb
<i>(vi) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried creu hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd wedi'u hyfforddi. Swyddi gwirfoddol yw'r rhain, sy'n seiliedig ar frwdfrydedd ac ymrwymiad, ac ni waeth pa mor uchel yw'r staff. Mae'r hyrwyddwyr yn chwarae rhan ganolog yn cefnogi'r gwaith o sicrhau bod mentrau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu priif-ffrydio a bod yr arferion gorau ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu dosbarthu, tra hefyd yn cefnogi'r gwaith strategol o ddatblygu mentrau i greu diwylliant cynhwysol. Dylid ystyried hefyd pa ran y gall y Cyfeillion (Allies) ei chwarae. O ran LHDT er enghraifft, mae'r term 'allies' yn cael ei</i>		

<i>ddefnyddio i ddisgrifio pobl heterorywiol sy'n credu y dylai pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol gael cydraddoldeb llwyr yn y gweithle ac sy'n defnyddio eu rôl yn y sefydliad i greu diwylliant sy'n cynnwys pawb."</i>		
Aelodau o Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol i fod yn hyrwyddwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Yn mynd ymlaen	Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol
<i>(vii) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried hefyd creu canolwyr (ac efallai y byddant yn dymuno ystyried a ddylent gael eu darparu'n allanol yn ogystal ag yn fewnol)."</i>		
Hyfforddiant Myfyrio i staff Adnoddau Dynol	Hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer Ionawr/Chwefror 2019, gan ACAS	Rheolwr Adnoddau Dynol
3. RECRIWTIO		
<i>(i) "Dylid cael ymgyrch ar y cyfryngau cenedlaethol am yr amrywiaeth lawn swydd y diffoddwr tân modern (yn debyg i ymgyrch bresennol y Fyddin) a beth mae'r gwasanaeth tân yn ei wneud i hysbysu ynghylch y canfyddiad. Dylai'r ymgyrch gael ei chefnogi gan wefan, a fyddai hefyd yn cynnwys gwybodaeth am recriwtio ac o bosibl yn dargyfeirio'r sawl sydd â diddordeb i'w gwasanaeth tân ac achub 'cartref; cynnwys gwybodaeth am ddedol (yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol, nid cyfarwyddiadau), gan gydnabod bod angen i'r set sgiliau fod yn ehangach na rhai gweithredol, h.y. sgiliau pobl, a darparu gwybodaeth am y gofynion ffitrwydd. Ystyriwyd mai'r awgrym hwn, o bell ffordd, yw'r ffordd fwyaf dylanwadol o addasu canfyddiadau a gwella amrywiaeth. Byddai'n fuddiol o ran recriwtio a chadw. O ran recriwtio, oherwydd byddai'n chwalu'r myth fod y swydd ar gyfer ymladd tanau, ac o ran cadw er mwyn osgoi siom nad yw'r swydd fel roedd pobl yn ei ddisgwyl." Sylwch: Mae'r argymhelliad wedi'i gynnwys yn y fan yma er mwyn cyflawnder, ond cydnabyddir mai ar lefel genedlaethol yn bennaf y bydd hyn yn symud yn ei flaen i ddechrau, felly mae'r cwestiynau dan (i) wedi cael eu diwygio yn unol â hynny.</i>		
Cymryd rhan yn Ymgyrch Ar-Alwad yr NFCC www.oncallfire.uk (adnoddau ar-lein)	Mae'r Gwasanaeth wedi'i restru ar www.oncallfire.uk ac mae eisoes yn prosesu atgyfeiriadau o'r wefan honno. Hefyd, mae'r Gwasanaeth wrthi'n sicrhau bod deunyddiau marchnata'r ymgyrch ar gael yn ddwyieithog ar ffurf copi caled, a'u bod cael eu golygu i gynnwys gwybodaeth leol pan fo hynny'n briodol.	Rheolwr Adnoddau Dynol & Cyfathrebu Corfforaethol
Adnoddau oddi ar lein	Mae'r Gwasanaeth wedi creu taflenni a llyfrynnau gwybodaeth a DVDs i'w rhoi i bobl sydd heb fynediad ar-lein. Y rhain i gael eu dosbarthu hefyd i ysgolion, colegau, canolfannau gyrfaedd, llyfrgelloedd ac ati.	Rheolwr Adnoddau Dynol & Cyfathrebu Corfforaethol
Nosweithiau Agored, Sesiynau Gwybodaeth a Digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol	Mae'r Gwasanaeth yn cynnal nosweithiau agored, sesiynau gwybodaeth, a digwyddiadau gweithredu cadarnhaol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i roi cynnig ar broffion dethol a hyfforddiant ffitrwydd.	Rheolwr Adnoddau Dynol & Hyfforddi

Adolygu'r Profion Dethol ar gyfer ymgeiswyr diffoddwyr tân y System RDS	Cynnal trafodaethau gyda Gwasanaethau Tân ac Achub y De a'r Canolbarth a'r Gorllewin ar eu prosesau nhw. Gofynnwyd i Ogledd Cymru weinyddu'r "Prawf Ar-alwad gallu Cymru gyfan".	Rheolwr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth
<i>(ii) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub archwilio, a lle bo'n briodol, ddefnyddio cyfleoedd recriwtio megis prentisiaethau a chadetiaid er mwyn cynyddu amrywiaeth yn y gweithlu."</i>		
Prentisiaethau	<p>Mae deg o brentisiaid wedi cael eu cyflogi'n barhaol fel diffoddwyr tân Amser Cyflawn, ac mae deg arall (sy'n cynnwys tair merch) yn parhau ar eu prentisiaethau. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n canfod pa mor hyfyw yw cyflogi cohort arall o brentisiaid diffoddwyr tân.</p> <p>Parhau i gyflogi deg o brentisiaid swyddi cefnogol – tri mewn Diogelwch Tân Busnesau (dwy yn ferched), tri mewn Diogelwch Tân Cymunedol (un ohonynt yn ferch), a phedwar yn y Fflyd. Y llynedd, cyflogwyd un mecanig benywaidd i'r fflyd, o'r rhaglen brentisiaethau.</p>	Rheolwr Adnoddau Dynol a Rheolwr Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth
Cadetiaid	Mae nifer o orsafoedd yn cefnogi cohortiaid Cadetiaid, ynghyd â chymhwyster BTEC. Mae'r grwpiau hyn yn cael eu cefnogi gan ddiffoddwyr tân lleol Ar-alwad, hyfforddwy'r lleyg a Rheolwyr Gwylfa adrannol	Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu
<i>(iii) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub wneud mwy o waith ymgysylltu, ac ymgysylltu'n gynnar, â chymunedau/ysgolion/ colegau penodol nid dim ond pan fydd recriwtio ar y gweill. Byddai hyn yn atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o'r swydd fel y mae hi heddiw. Dylai hyn ddefnyddio modelau rôl o blith y gweithwyr, ond gan fod yn ofalus i sicrhau cydbwysedd gyda'u gwaith craidd."</i>		
Digwyddiadau Gyrfaoedd	<p>Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fynychu digwyddiadau gyrfaoedd mewn ysgolion, colegau, canolfannau hyfforddi a chanolfannau gwaith i hyrwyddo'r Gwasanaeth fel cyflogwr cyfle cyfartal ac i roi gwybod i'r mynychwyr beth yw gofynion y swyddi. Hefyd, mae'r Gwasanaeth wedi mynychu digwyddiadau Sgiliau Cymru eleni, a digwyddiad 'Not Just for Boys' a drefnwyd drwy Yrfa Cymru.</p> <p>Dyma enghreifftiau eraill o Ddigwyddiadau Gyrfaoedd yr aethpwyd iddynt i hyrwyddo'r Gwasanaeth fel cyflogwr cyfle cyfartal:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau Cymru - Venue Cymru • Ffair Yrfaedd Sir y Fflint • Ffair Yrfaedd Canol Sir Ddinbych • Ffair Yrfaedd Gogledd Sir Ddinbych • Diwrnod Agored Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl 	Rheolwr Adnoddau Dynol

Ymgysylltu ag ysgolion lleol	Mae'r addysgwyr yn mynd i ysgolion ledled y rhanbarth, ac yn ddiweddar maent wedi cyflwyno dull targedol o drafod yr amrywiaeth o swyddi.	Diogelwch Tân
Digwyddiadau LHDT	Mae'r Gwasanaeth wedi mynychu digwyddiadau LHDT i dargedu ceisiadau gan LHDT.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Cysylltiad rheolaidd â Choleg Llandrillo Menai	I drafod cyfleoedd yn y Gwasanaeth a sut gallan nhw roi cymorth, e.e. addysgu am Sgiliau Hanfodol, gofal bugeiliol, cyfleoedd Addysg/Datblygu i fentoriaid a Rheolwyr Goruchwyliol.	Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu
<i>(iv) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod ganddynt bolisiau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, gan ddefnyddio mwy o drefniadau gweithio'n hyblyg."</i>		
Polisi Gweithio'n Hyblyg	Cafodd ei adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'r arferion gorau a'r ddeddwriaeth gyfredol	Rheolwr Adnoddau Dynol
Argaeledd Hyblyg ar gyfer staff Ar-alwad	Cynllun peilot yn mynd yn ei flaen – sy'n cynnwys yr opsiwn o ddarparu gofal yn ystod amser tymor	Gweithrediadau
Pecyn Gweithlu sy'n Heneiddio	Mae Pecyn Gweithlu sy'n Heneiddio yr NFCC nawr ar y fewnwyd, ac mae canllawiau ychwanegol ar gael ar y Menopos.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Gridiau argaeledd y System RDS	Adolygu eu hargaeledd, a thrafodaeth un-i-un ag ymgeiswyr i'r System RDS yn ystod y broses gyfweld	Adran Hyfforddi
Gweithio'n hyblyg i staff Hyfforddi a Datblygu	Dau aelod o'r staff â chontractau penodol ar gyfer gweithio'n hyblyg	Adran Hyfforddi
Hyfforddwyr Gweithredol	Hyfforddwyr Gweithredol yn hunan-gylchrestru er mwyn cael dull hyblyg o ddarparu cyrsiau, a hefyd i gefnogi cydbwysedd gyda'r cartref/ystyriol o deuluoedd	Adran Hyfforddi
Rheolwyr Hyfforddi a Datblygu	Mae rheolwyr canol y system dyletswydd hyblyg a'r 42 awr yn gallu cyfnewid eu diwrnodau dyletswydd gydag aelodau eraill o'r staff, cymryd gwyliau neu gyfnewid diwrnodau rota/dyletswydd ar gyfer eu hanghenion nhw	Adran Hyfforddi
<i>(v) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddatblygu strategaeth gyfathrebu mewnol i esbonio'r gwahaniaeth rhwng gweithredu cadarnhaol a gwahaniaethu cadarnhaol er mwyn gwrthbwyso barn rhai pobl mai'r unig reswm pam mae unigolion wedi cael eu cyflogi/dyrchafu yw eu bod yn fenyw/yn Ddu neu o Leiafrif Ethnig/yn LHDT. Byddai hyn yn beth cefnogol i unigolion o'r fath, a hefyd yn ddefnyddiol o ran annog camu ymlaen."</i>		

Ffeithluniau ar gyfer Gweithredu Cadarnhaol	Mae'r Gwasanaeth wedi creu ffeithluniau ar gyfer hyn, a byddant ar gael ar y fewnwyd.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Cyflwyniad Power Point ar Weithredu Cadarnhaol	Mae'r Gwasanaeth wedi creu Cyflwyniad Power Point, ac mae ar gael ar y fewnwyd a chyfryngau cymdeithasol allanol.	Rheolwr Adnoddau Dynol
Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol	Mae Strategaeth Gweithredu Cadarnhaol, ac mae'n cynnwys nodiadau ar Chwalu Mythau, gan esbonio beth yw gweithredu cadarnhaol a pham mae angen gwneud y gwaith a'r digwyddiadau gweithredu cadarnhaol, a beth yw'r manteision i'r Gwasanaeth.	Ymgynghorydd Cydraddoldeb/ Rheolwr Adnoddau Dynol
<i>(vi) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried comisiynu gwaith yn eu hardaloedd eu hunain i ganfod unrhyw rwystrau mae'r cymunedau lleol yn eu teimlo rhag gwneud cais i weithio gyda'r gwasanaeth."</i>		
4. CAMU YMLAEN		
<i>(i) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod y prosesau camu ymlaen, sy'n rhai teg a thryloyw, yn cael eu dilyn yn gyson ac yn cael eu hesbonio'n glir i bob gweithiwr."</i>		
Cynnal proses ddethol ar gyfer Rheolwyr Gwylfa a Chriw yn y System RDS	<ul style="list-style-type: none"> Proses ddethol Oruchwyliol barhaus ar gyfer y System RDS – mae elfennau ohoni'n cael eu hadolygu, yn ddibynnol ar gymwysterau/sgiliau unigolion. Mae cael un arweinydd yn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddilyn ar gyfer pob asesiad 	Adran Hyfforddi
Canolfan Asesu a Datblygu Cymru gyfan ar gyfer Staff Amser Cyflawn/Ystafell Reoli	Cwblhawyd lefelau Rheolwyr Goruchwyliol a Chanol yn 2018 – cyflwynwyd cynllun datblygu yn seiliedig ar eu perfformiad yn y Ganolfan Asesu a Datblygu, a chroesfapio i'r Priodoleddau a Nodweddion Personol (PQAs). Adolygu offerynnau'r Ganolfan Asesu a Datblygu yn 2019, i'w rhoi ar waith yn 2020	Adran Hyfforddi
Dyrchafu yn y System Amser Cyflawn	<ul style="list-style-type: none"> Dull cyson o ddelio â dyrchafiadau cychwynol i Reolwr Criw neu Wylfa, sy'n cael ei reoli gan yr Adran Hyfforddi er cysondeb Staff cymwys, sydd wedi cael gwybod am y senarios, yn gwneud yr asesiadau 	Adran Hyfforddi

<i>(ii) “Dylai’r Gwasanaethau Tân ac Achub ddatblygu rhwydweithiau cymorth a rhaglenni mentora/coetsio ystyrlon. (Sylwch – nid oes angen i’r mentoriaid/coetswyr ddod o’r grŵp penodol, e.e. mentor Du neu o Leiafrif Ethnig ar gyfer reolwr criw Du neu o Leiafrif Ethnig).”</i>		
Cymwysterau Coetsio a Mentora	Cymwysterau Coetsio a Mentora Lefel 3, Lefel 5 & Lefel 7 gan reolwyr goruchwyliol, canol a strategol	Adran Hyfforddi
<i>(iii) “Dylai’r Gwasanaethau Tân ac Achun annog diddordeb mewn dyrchafiad yn gyffredinol a thrwy chwilio am dalent drwy gynnwys hyfforddiant ar arweinyddiaeth, cyfleoedd i ddatblygu megis cyfnewid swyddi, wythnosau blasu a dyrchafiadau dros dro (fel bod unigolyn yn gallu profi’r swydd wahanol). Dylai hyn fod yn seiliedig ar bolisi teg a thryloyw sy’n nodi’n glir beth yw’r meini prawf ar gyfer cynnig cyfleoedd o’r fath.”</i>		
Dyrchafiad Dros Dro	<ul style="list-style-type: none"> • Mae dyrchafiad dros dro yn agored i holl staff y Llyfr Llwyd sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymgeisio a chymryd rhan yn y broses ddyrchafu. • Pan fo angen sgiliau arbenigol, gellir dyrchafu unigolion dros dro pan nad ydynt yn cymryd rhan yn y broses ddyrchafu. Cefnogaeth a datblygiad pan fo angen. • Mae hyfforddiant a chysiau ar arweinyddiaeth ar gael drwy ‘Pathways’ ar gyfer pob swydd 	Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu
<i>(iv) “Dylai’r Gwasanaethau Tân ac Achub edrych ar ddefnyddio mwy o drefniadau gweithio’n hyblyg, a allai gynorthwyo i wella e.e. y dagfa ar lefel Rheolwr Gorsaf oherwydd maint yr ymrwymiad ar-alwad a allai wrthdaro â chyfrifoldebau gofalu.”</i>		
5. CADW STAFF		
<i>(i) “Drwy gyflwyno ymgyrch yn y cyfryngau cenedlaethol fel y nodir dan ‘recriwtio’, dylai hynny sicrhau bod recriwtiaid yn gwbl ymwybodol o waith y gwasanaeth a’r rhan y byddant yn ei chwarae yn hynny. Felly, ni ddylent gael siom neu golli diddordeb wrth iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa. Sylwch: Mae’r argymhelliad wedi’i gynnwys yn y fan yma er mwyn cyflawnder, ond cydnabyddir mai ar lefel genedlaethol yn bennaf y bydd hyn yn symud yn ei flaen i ddechrau, felly mae’r cwestiynau dan (i) wedi cael eu diwygio yn unol â hynny.”</i>		
Ymyriadau – Mae Adnoddau Dynol yn cysylltu â gweithwyr sy’n ymddiswyddo er mwyn canfod a ellir gwneud newidiadau/cymryd camau i gadw staff	Yn mynd ymlaen	Rheolwr Adnoddau Dynol
Cynghori ceisiadau am seibiant di-dâl (yn hytrach nag	Yn mynd ymlaen	Rheolwr Adnoddau Dynol

ymddiswyddiadau, a gweithredu hynny os yw'n bosibl)		
Nosweithiau Agored	Cynhelir nosweithiau agored i ddarparu gwybodaeth i ymgeiswyr Ar-alwad, sy'n cynnwys Strwythur y Gwasanaeth	Rheolwr Adnoddau Dynol
Y Broses Ddethol	<p>Diwygwyd y cyfweiliadau dethol i gynnwys trafodaeth gyda'r ymgeisydd, yn seilidig ar y pwyntiau canlynol, er mwyn tynnu sylw at realiti swydd diffoddwr tân ar-alwad</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynychu modiwlau/cyrsiau, gan gynnwys ymrwymadau preswyl • Mynychu nosweithiau ymarfer • Angen ymgysylltu â'r gymuned • Angen gwneud Archwiliadau Diogel ac Iach • Y gyfradd alwadau yn gostwng felly mae'n debygol na fyddant yn cael eu galw allan bob wythnos, ond bydd angen iddynt fod ar gael • Disgwylir safonau ymddygiad a disgyblaeth – lifrai ac ati • Yr effaith y mae dyletswyddau'r System RDS yn eu cael – ar deulu, ffrindiau, ac angen bod ar gael • Y manteision o fod yn ddiffoddwr tân cymunedol y System RDS 	Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu
<i>(ii) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau bod y disgwiliadau o ran lefelau ffitrwydd yn cael eu hesbonio'n glir, a chymorth yn cael ei ddarparu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar faterion i ferched yn unig, megis mamolaeth a'r menopos."</i>		
Diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol/Blasu	Rhoi cyflwyniadau mewn digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol (Blasu); gan dynnu sylw at ofynion ffitrwydd diffoddwyr tân.	Rheolwr Adnoddau Dynol / Tîm Ffitrwydd
Sesiynau Ffitrwydd	Sesiynau ffitrwydd penodol yn canolbwyntio ar gryfder rhan uchaf y corff, gyda gweithwyr presennol a'u cynnig i recriwtiaid benywaidd posibl. Darparwyd rhaglenni i unigolion i gefnogi eu hyfforddiant a nodi lle gallant wella eu lefelau ffitrwydd presennol.	
Gwefan GTAGC (adran ffitrwydd)	Mae gwefan GTAGC yn nodi'r profion y mae angen i unigolion eu cymryd yn ystod y broses recriwtio, a beth yw'r safon ffitrwydd mynediad sydd ei angen. Cyngor am brofi eu ffitrwydd eu hunain er mwyn i'r unigolion allu asesu eu lefel ffitrwydd eu hunain.	
Canllaw ar y Menopos	Mae hyn o fewn y Pecyn Gweithlu sy'n Heneiddio, a datblygwyd canllaw ychwanegol gan GTAGC ar gyfer y staff.	Rheolwr Adnoddau Dynol

Nosweithiau Agored	Gwybodaeth am ffitrwydd ar gael yn ystod y noson agored	Rheolwr Adnoddau Dynol / Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu
Diwrnodau Gweithredu Cadarnhaol	Gwahoddir grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i ddod i ddiwrnod gweithredu cadarnhaol, sy'n cynnwys cyfle i gymryd rhan yn y profion sy'n cael eu methu fwyaf: <ul style="list-style-type: none"> • Codi ysgol • Cario offer Pan nad yw'r mynychwyr yn llwyddianus, gallant gysylltu ag Ymgynghorwyr Ffitrwydd y Gwasanaeth i gael arweiniad, ond mae gwybodaeth a chyngor am ffitrwydd yn cael eu rhoi i bawb fel rhan o becyn cyffredinol ar gyfer gweithredu cadarnhaol.	Rheolwr Adnoddau Dynol / Uwch Reolwr Hyfforddi a Datblygu
Rhoi Cynlluniau Ffitrwydd – Dynion a Merched	I ddechreuwyd newydd sy'n methu cwblhau'r modiwl diffoddwyr tân oherwydd lefelau ffitrwydd. Trefnir iddynt ddod eto i'r modiwl diffoddwyr tân o fewn amserlen benodol.	Adran Hyfforddi
Ôl-drafodaeth	Mae ôl-drafodaeth ar ddiwedd y Modiwl Diffoddwyr Tân yn esbonio'n glir beth yw'r gofynion ffitrwydd ar gyfer y Modiwl Offer Anadlu sy'n dilyn	Adran Hyfforddi
<i>(iii) "Fel gyda recriwtio a chadw, dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried defnyddio mwy o drefniadau gweithio'n hyblyg."</i>		
Gridiau argaeledd RDS	Adolygu eu hargaeledd a thrafodaeth un-i-un gydag ymgeiswyr i'r System RDS yn ystod y broses gyfnewid	Adran Hyfforddi
Hunan-gylchrestru RDS	Cyflwyno cynllun peilot i ganfod gorsafoedd i ddefnyddio system hunan-gylchrestru yn hytrach na matrices argaeledd er mwyn cefnogi'r hyblygrwydd rhwng cartref a gwaith a chadw criw i fod ar gael ar y peiriannau.	Adran Weithrediadau
<i>(iv) "Lle nad yw'r Gwasanaethau Tân ac Achub eisoes yn cynnal cyfweiliadau ymadael, dylent wneud hynny nawr. Dylid cofnodi canlyniadau cyfweiliadau o'r fath, a'u monitro er mwyn gallu canfod yn gynnar a oes unrhyw themâu y dylid eu datrys ar gyfer y dyfodol."</i>		
<i>(v) "Dylai'r Gwasanaethau Tân ac Achub ystyried y ffordd orau o gadw diddordeb ac ymrwymiad gweithwyr drwy'r amrywiaeth o waith a wneir yn y swydd."</i>		